**Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol o dan y teitl *Ymchwiliad i Bolisi Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru***

**17 Ebrill 2013**

---

Mae diogelu'n treftadaeth a hybu mynediad, mwynhad a chyfranogiad cyhoeddus yn flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru ac oherwydd hynny'n rwy'n rhoi croeso cynnes i'r adroddiad hwn ac i'r cyfle i drafod ein cynigion ynglŷn â bywiogrwydd amgylchedd hanesyddol Cymru yn y dyfodol. Hoffwn gofnodi fy mod yn gwerthfawrogi gwaith caled aelodau'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wrth gasglu tystiolaeth a chyflyno'u canfyddiadau.

Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr adroddiad yn cyd-fynd â chyfeiriad Llywodraeth Cymru o ran y polisi ar yr amgylchedd hanesyddol ac mae'n dda gen i felly dderbyn y mwyafrif ohonyn nhw. Mae angen rhagor o ystyriaeth ac ymchwil yn achos rhai ohonyn nhw ond rwy'n deall ac yn cefnogi'r rhesymau y tu ôl iddyn nhw ac fe gân nhw ystyriaeth gadarnhaol gen i.

Cafodd tystiolaeth ei rhoi i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar lafar ac mewn ysgrifen gan fy rhagflaenydd, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth a chan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ym mis Gorffennaf 2012. Rwy'n gwybod bod fy nghyd-Weinidogion yn falch o gael rhoi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i bolisi amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru a chlywed tystiolaeth gan yr amryfal gyrff ac unigolion a fu'n cyfrannu. Mae eu sylwadau nhw wedi helpu Llywodraeth Cymru i lunio'i Strategaeth ar yr Amgylchedd Hanesyddol, edrych ar opsiynau ar gyfer trydydd sector treftadaeth cadarn a bwydo datblygiadau'r Bil Treftadaeth a'r mesurau sy'n gysylltiedig ag ef.

Yn ystod 2012, drwy ei gwasanaeth amgylchedd hanesyddol, Cadw, achubodd Llywodraeth Cymru ar y cyfle i adolygu'r systemau a'r arferion cyfredol a oedd ar gael i amddiffyn ein hamgylchedd hanesyddol yn ogystal ag edrych ar y ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach a'r ffactorau ehangach eraill a allai effeithio ar ein treftadaeth yn y dyfodol. Gwnaed hyn gyda chynrychiolwyr rhychwant ehangach o gyrff yn sector yr amgylchedd hanesyddol ac unigolion sydd â diddordeb a hynny mewn gweithdai, sioeau ffordd cymunedol a chynhadledd gyhoeddus ar y Bil Treftadaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro ei bod yn bwriadu ystyried system o ddiogelu asedau treftadaeth sy'n fwy addas ar gyfer materion cyfoes yn ogystal ag ystyried cymryd camau i gynyddu effaith gymdeithasol ehangach sector yr amgylchedd hanesyddol. O ganlyniad i'r ymgynghori helaeth hwn, cafodd Strategaeth yr Amgylchedd Hanesyddol ei chyhoeddi ym mis Hydref 2012 gan nodi dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector, gan gynnwys ymrwymiadau o dan y Rhaglen Lywodraethu.

Datgelodd y gweithdai ar gyfer y Bil Treftadaeth nifer dda o ddisgwyliadau ac ambell ddyhead cyferbyniol ynglŷn â'r dyfodol. Fyddai dim angen deddfwriaeth i roi llawer o'r materion a godwyd ar waith ac mae'r rhain yn cael eu datblygu bellach mewn ffyrdd eraill, sef rhoi strategaethau ar waith, polisïau, canllawiau a hybu arferion da. Mae Strategaeth yr Amgylchedd Hanesyddol yn eistedd ochr yn ochr â'r Bil, gan gydategu'r mesurau arfaethedig ynddo, ond yn caniatáu i rai o'r camau ynddo gael eu cymryd yn gynt.

Ategir ein Strategaeth â nifer o fframweithiau a chynlluniau thematig manylach, y mae rhai ohonyn nhw eisoes wedi'u sefydlu megis y Fframwaith Treftadaeth a'r Celfyddydau - ac mae eraill i'w gorffen yn y deuddeng mis nesaf. Mae'r Prif Gynllun Gweithredu a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Strategaeth wrthi'n cael ei ddatblygu ymhellach, gan fapio'r camau penodol y mae angen eu cymryd er mwyn cyrraedd nodau'r Strategaeth, gan nodi partneriaid ac adnoddau i fwrw ymlaen a chymryd y camau.

Rwy'n nodi bod y Pwyllgor wedi cael dros 80 eitem o dystiolaeth ysgrifenedig. Roedd pryderon rhyw hanner y gohebwyr hyn yn ymwneud â'r cwestiwn a allai'r Comisiwn Brenhinol uno â Cadw. Cafodd y materion a godwyd eu trafod gan y Gweithgor wrth iddo ddatblygu ei adroddiad i'r Gweinidog blaenorol. Cyn i minnau ffurfio barn a ddylai trefniadau'r sefydliad gael eu newid ai peidio rwy'n disgwyl cael achos busnes. Mae Strategaeth yr Amgylchedd Hanesyddol yn mynegi'r angen i ddadansoddi strwythur, gwytnwch a gallu presennol y trydydd sector ac rydyn ni wrthi'n adolygu'r opsiynau ar gyfer Rhwydwaith Treftadaeth i Gymru a hwnnw wedi'i seilio ar aelodaeth ac yn gweithredu fel canolbwynt i gydlynu camau ar draws y trydydd sector yng Nghymru.

Rwy'n ategu'n llawn farn fy rhagflaenydd bod yr amgylchedd hanesyddol yn ganolog i'n diwylliant ni yng Nghymru ac i'n hunaniaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae'n adnodd cyffredin ac yn rhan o'n treftadaeth ni i gyd. Rwy'n teimlo cyffro ynglŷn â'm rôl newydd fel Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon ac yn edrych ymlaen at adeiladu ar y gwaith da a ddechreuodd fy rhagflaenydd. Ac fel fy rhagflaenydd, rwyf finnau hefyd am feithrin gwell gwerthfawrogiad o werth ac effaith treftadaeth leol i gymunedau ac i'w datblygu cynaliadwy. Mae yna gymaint i bobl ei brofi, ei fwynhau a'i ddeall ynghylch y nodweddion a'r storïau sy'n rhoi cymeriad arbennig i leoedd. Yn ogystal â hybu'n safleoedd eiconig ac ymgysylltu'n bendant â'r cyhoedd a'n partneriaid, wna i ddim anghofio rôl statudol bwysig Cadw o amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol i ni i gyd.

Rwy'n ddiolchgar am gyfraniad cadarnhaol y Pwyllgor wrth inni barhau i ddatblygu cynigion ar gyfer ein Bil Treftadaeth cyntaf i Gymru.

Rwyf wedi nodi isod fy ymateb i argymhellion unigol y Pwyllgor.

**Argymhelliad 1**
Cyn bwrw ymlaen ag unrhyw uno sy'n ymwneud â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth lawn i'r pryderon a godwyd gan dystion arbenigol yn ystod ein hymchwiliad. (Tudalen 13)
**Ymateb: Derbyn**

Ystyriodd y Gweithgor a gyflwynodd adroddiad i'r Gweinidog blaenorol bob un o'r materion a gafodd eu codi yn y dystiolaeth i'r Pwyllgor. Daeth y Gweithgor i'r casgliad fod yna achos o blaid newid o'i gymharu â'r status quo. Gofynnodd y Gweinidog blaenorol am ddatblygu achos busnes ynglŷn â'r opsiwn o uno'r Comisiwn Brenhinol â Cadw o fewn y Llywodraeth. Mae'r achos busnes yn cael ei baratoi ar hyn o bryd. Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wrthi'n datblygu'r achos busnes a bydd y pryderon a godwyd yn ystod yr ymchwiliad yn cael eu hystyried cyn imi wneud penderfyniad.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Tynnir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 2**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar ddewisiadau i gryfhau statws Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol, gan gynnwys eu rhoi ar sail statudol. (Tudalen 29)
**Ymateb: Derbyn**

Mae rheoli cyfrifol ar yr amgylchedd hanesyddol yn dibynnu ar wybodaeth fanwl a dibynadwy sydd ar gael pan fydd angen i benderfyniadau gael eu gwneud. Yn ystod y gwaith ymgysylltu i fwydo Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru a datblygu'r Bil Treftadaeth, cafodd statws Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol (HERs) ei danlinellu fel problem. Mae Prif Gynllun Gweithredu'r Strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i adolygu a diwygio'r fframwaith strategol ynglŷn â chofnodion sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

Fel rhan 'r gwaith hwn, mae cynigion i gryfhau sefyllfa a statws yr HERs yn cael eu hystyried. Rwyf wrthi'n ystyried ai peth da fyddai gosod yr HERs ar sail statudol, yn ogystal â llunio canllawiau i'r awdurdodau cynllunio lleol a'r Ymddiriedolaethau Archaeolegol ynghylch creu a chynnal HERs cynhwysfawr yn lleol.

Bydd unrhyw gynigion deddfwriaethol i newid statws yr HERs yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y Bil Treftadaeth a gaiff ei gyhoeddi yn yr haf.

**Goblygiadau Ariannol**
Mae Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Brenhinol a'r awdurdodau lleol eisoes yn ariannu Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru i gynnal yr HERs. Pe bai'r HERs yn cael eu gosod ar sail statudol, byddai Asesiad Effaith Rheoliadol llawn yn cael ei baratoi fel rhan o'r broses.

**Argymhelliad 3**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar ddewisiadau i symleiddio'r system rhestru. (Tudalen 30)
**Ymateb: Derbyn**

Cafwyd ymarfer ymgysylltu helaeth yn ystod 2012 i fwydo datblygiadau ynglŷn â'r Bil Treftadaeth. Yn gyffredinol, doedd dim llawer o awydd i weld newid radicalaidd yn y fframwaith deddfwriaethol i amddiffyn y dreftadaeth. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried opsiynau o ran sut mae gwella'r system gyfredol.

Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut mae gwella ar weinyddiaeth y system restru, gan ddod â mwy o dryloywder i'r broses benderfynu, yn ogystal â hybu ymagwedd fwy cyson at benderfyniadau'r awdurdodau lleol.

Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i sut y gallai'r canllawiau gael eu gwella er mwyn rhoi gwell esboniad ar yr amrywiaeth o weithfeydd y mae angen Caniatâd Adeilad Rhestredig ar eu cyfer ac i arwain yr awdurdodau cynllunio lleol, ac ymgeiswyr, tuag at gynigion sy'n parchu arwyddocâd adeiladau o'r fath. Nid atal newid adeiladau hanesyddol yw'r bwriad, ond hybu newid sy'n dangos cydymdeimlad a pharch at adeiladau rhestredig.

Mae'r Pwyllgor yn nodi tystiolaeth a oedd yn awgrymu bod y system restru'n rhy gyfyngol: "the need for referring all the Listed Building Consent (LBC) applications to Cadw is questioned". At ei gilydd, mae Gweinidogion Cymru ac, yn ymarferol, Cadw, yn cael eu hysbysu am gais am LBC gan awdurdod cynllunio lleol i ystyried a ddylai'r cais gael ei alw i mewn i gael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru. Dim ond os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu rhoi ei gydsyniad y mae Cadw'n cael ei hysbysu am geisiadau am LBC - ond mae hyn yn dibynnu ar y safbwynt sydd wedi'i nodi yn y paragraff a ganlyn.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo nad oes angen hysbysu Cadw am unrhyw gais am LBC ynglŷn â gwaith mewnol ar adeilad rhestredig gradd II heblaw'r adeiladau hynny y mae wedi rhoi cymorth grant iddyn nhw o dan Adran 4 o Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953, neu os oes penderfyniad ar gais o'r fath yn yr arfaeth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gallu cyfarwyddo nad oes angen i gategorïau eraill o gais am LBC gael eu hysbysu i Cadw. Ar hyn o bryd, does dim angen i bump o gynghorau Cymru - Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Mynwy, Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Bro Morgannwg - hysbysu Cadw am y mwyafrif mawr o'r ceisiadau am LBC sy'n cynnwys gwaith mewnol ac allanol sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig gradd II. I sicrhau dirprwyaeth o'r fath, mae angen i'r awdurdodau ddangos bod ganddyn nhw ar lefel y swyddogion, arbenigedd proffesiynol priodol i gyflawni dyletswyddau'r amgylchedd hanesyddol a hynny ar sail polisïau a gweithdrefnau clir. Hoffwn weld rhagor o'r awdurdodau lleol yn ysgwyddo'r pwerau hyn, ac mae Cadw wrthi'n ystyried y ffordd fwyaf effeithiol i gyflawni hyn.

**Goblygiadau Ariannol** - Does dim goblygiadau ariannol wrth ystyried yr opsiynau hyn. Byddai gwaith i ddiweddaru'r canllawiau ac i awgrymu arferion da yn cael ei wneud o fewn cyllidebau'r rhaglenni presennol. Bydd angen i unrhyw newidiadau yn y ddeddfwriaeth gael eu hystyried fel rhan o broses y Bil Treftadaeth a byddai Asesiad Effaith Rheoliadol llawn yn cael ei baratoi fel rhan o'r broses honno.

**Argymhelliad 4**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn defnyddio ac yn gorfodi rheolau sy'n ymwneud â rhestru yn gyson. (Tudalen 29)
**Ymateb: Derbyn**

Mae canllawiau i'r awdurdodau cynllunio lleol ar y ddeddfwriaeth, y polisi a'r gweithdrefnau ynglŷn ag adeiladau rhestredig ar gael. Er hynny mae angen diweddaru'r canllawiau hyn a fydd yn helpu'r awdurdodau lleol i'w dehongli'n gyson. Caiff hyn ei wneud fel rhan o'r pecyn o fesurau i helpu i roi'r Bil Treftadaeth ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cynigion ar gydweithio ychwanegol wrth ddarparu gwasanaethau'r amgylchedd hanesyddol drwy waith Compact Simpson. Hefyd, wrth roi Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol ar waith mae arfarniad o'r opsiynau'n cael ei gynnal ynghylch darparu gwasanaethau'r awdurdodau lleol ym maes cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol. Bydd canlyniad y gwaith hwn yn ein helpu i sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru wrth i wasanaethau gael eu darparu.

Ymhellach, mae rôl arolygwyr adeiladau hanesyddol Cadw yn y rhanbarthau yn ceisio hybu ymagwedd gyson ledled Cymru o ran gwaith gorfodi. Mae Cadw'n cynnal Fforwm y Dreftadaeth Adeiledig sy'n dod â swyddogion cadwraeth lleol o awdurdodau lleol ledled Cymru at ei gilydd. Mae'r fforwm yn gyfle i gyfnewid safbwyntiau ar bynciau/materion a chytuno ar gamau i'r partneriaid eu cymryd yn y dyfodol; rhoi enghreifftiau o arferion da; a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r partneriaid am newidiadau perthnasol yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau - dyma fforwm amhrisiadwy at waith cydweithredol.

Mae Cadw'n cael ei gynrychioli hefyd ar fforymau'r swyddogion cadwraeth rhanbarthol ac unwaith eto mae hyn yn caniatáu i arferion da a syniadau gael eu rhannu ac yn helpu i hybu ymagwedd fwy cyson at faterion fel gwaith gorfodi.

Mae yna bwerau gorfodi eisoes i'r awdurdodau lleol, a bydd y mesurau uchod yn helpu'r awdurdodau lleol i gymhwyso'r rheolau hyn mewn modd cyson.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Tynnir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 5**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio dewisiadau i gyflwyno amserlen statudol ar gyfer adolygu eiddo neu adeiladau rhestredig, gan ystyried cynaliadwyedd a defnydd. (Tudalen 30)
**Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor**

Mae meini prawf sydd wedi'u nodi yng Nghylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig yn cael eu defnyddio i nodi adeiladau o arwyddocâd pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Does dim bwriad i newid meini prawf rhestru. Os mynegir amheuaeth ynglŷn â rhestriad neu os awgrymir rhestru eiddo sydd heb ei restru o'r blaen yna bydd Cadw'n cynnal asesiad dwy eu trefniadau ar gyfer rhestru yn y fan a'r lle, gan fwrw ymlaen ag unrhyw newid angenrheidiol yn y rhestr o ganlyniad iddo. Hefyd, mae gweithdrefnau LBCs a'r gweithdrefnau gorfodi yn rhoi hawl i apelwyr ddadlau nad yw adeilad o ddiddordeb arbennig ac y dylai gael ei dynnu oddi ar y rhestr.

Dros y tair blynedd nesaf bydd Cadw'n cynnal adolygiad o gyflwr adeiladau rhestredig Cymru gyfan. Drwy'r arolwg hwn bydd Cadw'n gallu hybu gwell ymwybyddiaeth o adeiladau sydd mewn perygl ac annog pobl i'w hailddefnyddio, yn enwedig mewn rhaglenni i fuddsoddi mewn adfywio. Y bwriad yw y bydd yr arolwg yn cynnwys asesu ardaloedd cadwraeth er mwyn inni gael syniad gwell o gyflwr yr asedau hanesyddol ledled Cymru, yn hytrach na chanolbwyntio dim ond ar y rhai sydd eisoes wedi'u dynodi.

Caiff y data ei ddefnyddio fel offeryn i helpu i reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd pendant, a thrwy'r arolwg bydd gan Cadw a'r awdurdodau cynllunio lleol well gwybodaeth am gyflwr yr adeiladau rhestredig, a fydd yn eu galluogi i fynd i'r afael â materion ynglŷn â'u cynnal a'u defnyddio.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Fydd ystyried yr opsiynau ddim yn golygu costau ychwanegol.

**Argymhelliad 6**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried dewisiadau i gyflwyno system sy'n golygu pan fydd chwiliadau gan awdurdodau lleol yn dangos bod adeilad wedi'i restru a/neu mewn ardal gadwraeth, bod y perchennog newydd yn cael canllawiau clir gan yr awdurdod lleol ynghylch y cyfyngiadau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth y statws rhestredig. (Tudalen 30)
**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar opsiynau gyda'r awdurdodau lleol er mwyn cynnig canllawiau clir ar gyfyngiadau a chyfrifoldebau i berchnogion newydd adeiladau rhestredig neu'r rhai sydd mewn ardaloedd cadwraeth. Serch hynny, dylwn ddweud bod ein hadeiladau hanesyddol ar y cyfan yn cael gofal da gan eu perchnogion. Mae yna enghreifftiau lle bydd pethau'n mynd o chwith a lle bydd adeiladau'n cael eu colli gwaetha'r modd oherwydd

dirywiad neu lle bydd nodweddion penodol yn cael eu dileu am nad yw pob perchennog yn gwybod am eu cyfrifoldebau.

Bydd Fforwm y Dreftadaeth Adeiledig a chyfarfodydd rhanbarthol yr awdurdodau cynllunio lleol yn ddulliau da i ystyried opsiynau o'r fath. Mae gan nifer o'r awdurdodau cynllunio lleol wybodaeth helaeth ar gael eisoes i berchnogion newydd adeiladau rhestredig a byddai'n fuddiol rhannu'r arferion da hyn ledled Cymru. Rydyn ni hefyd am ddiweddaru llyfryn gwybodaeth Cadw "Beth yw rhestru?" sy'n nodi'r cyfrifoldebau sylfaenol sy'n gysylltiedig â bod yn berchennog adeilad rhestredig.

Mae Fforwm y Dreftadaeth Adeiledig yn denu nifer dda o'r awdurdodau cynllunio lleol i'w gyfarfodydd ac mae wedi bod yn allweddol wrth sicrhau canlyniadau da ar lawer o faterion, er enghraifft mae mentrau fel arolygon o Adeiladau mewn Perygl wedi'u llunio ac wedi'u cwblhau ar ôl trafod a chytuno yn y Fforwm.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Tynnir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 7**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno system i gael gwybod adeg gwerthu/trosglwyddo, a dorrwyd rheoliadau adeilad rhestredig o gwbl a chasglu gwybodaeth am gyflwr yr adeilad. (Tudalen 30)
**Ymateb: <u>Derbyn o ran Egwyddor</u>**

Mae mecanweithiau ar gael eisoes i alluogi'r awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru i gael gwybod a yw'r rheoliadau ar adeiladau rhestredig wedi'u torri. Mae adran 88 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn rhoi hawl i fynd i dir i unrhyw berson awdurdodedig er mwyn arolygu'r tir ynglŷn ag unrhyw gynnig i roi neu i gyflwyno hysbysiadau neu orchmynion penodedig o dan y Ddeddf neu ynglŷn â sicrhau a oes tramgwydd wedi'i gyflawni neu sicrhau a yw'r adeilad mewn cyflwr priodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol y bydd rhai awdurdodau lleol yn ymweld ag adeiladau rhestredig gyda darpar brynwyr er mwyn rhoi sicrwydd bod yr awdurdodiad priodol wedi'i sicrhau i unrhyw waith. Byddwn yn ystyried a fyddai'n fuddiol hybu hyn ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru fel arfer da. Bydd angen rhoi rhagor o ystyriaeth i sut i ariannu hyn, ac a allai'r awdurdodau lleol godi tâl am y gwasanaeth.

**Goblygiadau Ariannol.** Does dim goblygiadau ariannol i ystyried yr argymhelliad, ond fe fyddai ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol gynnal arolygon o'r fath yn creu costau a byddai angen ystyried ar bwy y dylai'r costau hynny syrthio.

**Argymhelliad 8**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyflwyno mecanwaith sy'n sicrhau, yn dilyn gwaith i adeilad rhestredig, y dylid cynnal arfarniad adeilad rhestredig cyn pen cyfnod penodol. (Tudalen 30)
**Ymateb: <u>Derbyn o ran Egwyddor</u>**

Mae mecanweithiau ar gael eisoes sy'n caniatáu i werthusiad o adeilad rhestredig gael ei gynnal yn sgil gwaith y rhoddwyd caniatâd iddo. Mae adran 88 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn rhoi hawl i fynd i dir i unrhyw berson awdurdodedig er mwyn arolygu'r tir ynglŷn ag unrhyw gynnig i roi neu i gyflwyno hysbysiadau neu orchmynion penodedig o dan y Ddeddf neu ynglŷn â sicrhau a oes tramgwydd wedi'i gyflawni neu sicrhau a yw'r adeilad mewn cyflwr priodol.

Does dim dyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol arfer y pwerau hyn, er bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnal gwerthusiadau anffurfiol os yw'r adnoddau'n caniatáu. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a fyddai'n fuddiol argymell system o'r fath i'r awdurdodau lleol. Gallai gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i gynnal gwerthusiad ar ôl gwaith ar bob adeilad rhestredig greu goblygiadau arwyddocaol o ran adnoddau. Bydd angen rhoi rhagor o ystyriaeth i sut i ariannu hyn, ac a allai'r awdurdodau lleol godi tâl am y gwasanaeth.

**Goblygiadau Ariannol.** Does dim goblygiadau ariannol i ystyried yr argymhelliad, ond mae'n eglur y byddai ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol gynnal gwerthusiadau o'r fath yn creu costau a byddai angen ystyried ar bwy y dylai'r costau hynny syrthio.

**Argymhelliad 9**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i gyflwyno cofrestr statudol ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol, fel y cânt eu diogelu'n llawn yn y system gynllunio. (Tudalen 30)
**Ymateb: <u>Derbyn o ran Egwyddor</u>**

Ar ôl ymgynghori'n helaeth â'r rhanddeiliaid er mwyn bwydo'r cynigion ar gyfer y Bil Treftadaeth, rwyf wrthi'n ystyried rhagoriaethau gosod y gofrestr parciau a gerddi hanesyddol ar sail statudol.

Mae Cadw wedi cynnal arolwg cynhwysfawr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Mae'r rhai y tybir eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol wedi'u cynnwys ar gofrestr anstatudol o Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru gan Cadw / Cyngor Rhyngwladol Henebion a Safleoedd (ICOMOS). Cafodd y Gofrestr ei llunio i helpu cadwraeth wybodus ar barciau a gerddi hanesyddol ymhlith perchnogion, awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr, cyrff statudol a phawb sy'n ymwneud â nhw.

Drwy'r polisïau cynllunio y mae'r safleoedd hyn yn cael eu hamddiffyn ac y mae effeithiau posibl datblygu arnyn nhw yn cael eu hystyried.

**Goblygiadau Ariannol:** Fe fyddai rhywfaint o oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru pe bai'r Gofrestr yn cael ei gosod ar sail statudol gan y byddai angen inni adolygu'r cofnodion presennol yn y Gofrestr, gan gynnwys ymgynghori â phob perchennog. Caiff y costau hyn eu talu o fewn costau rhedeg presennol yr adran a bydd Asesiad Effaith Rheoliadol llawn yn cael ei baratoi fel rhan o'r broses.

**Argymhelliad 10**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi mecanweithiau ar waith i sicrhau cydweithrediad gwell wrth hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol. (Tudalen 38)
**Ymateb: Derbyn**

Fis Hydref diwethaf, lansiodd fy rhagflaenydd Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru. Mae'r Strategaeth, yr wyf finnau'n ei hategu'n llwyr, yn nodi ymrwymiad clir i Lywodraeth Cymru gydweithio â phartneriaid a sefydliadau allweddol i wireddu'r Prif Gynllun Gweithredu. Mae'r Strategaeth yn nodi dau ganolbwynt ar gyfer gwaith hyrwyddo. Deall ein henebion a'n hadeiladau a sut maen nhw o fantais i bobl Cymru yw'r canolbwynt cyntaf a gwerth ein henebion o ran twristiaeth, a sut mae hynny'n troi'n fantais economaidd i gymunedau ac i Gymru gyfan, yw'r ail.

O fewn y Llywodraeth, mae fy swyddogion wrthi'n datblygu perthnasoedd yn arbennig â Croeso Cymru i fwrw ymlaen â thwristiaeth treftadaeth, a hefyd â'r Adran Addysg a Sgiliau, yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi, yr Adran Llywodraeth Leol, yr Adran Tai ac Adfywio ac Adnoddau Naturiol Cymru.

Rydyn ni'n ffodus o ran ein partneriaid yn sector yr amgylchedd hanesyddol ac mae'n partneriaid allweddol, megis Amgueddfa Cymru-National Museum Wales, y pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol, yr Ymddiriedolaeth Ddinesig a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, i gyd yn ychwanegu cryn dipyn at sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol ar gael i ymwelwyr ac yn cynnig ysgogiad iddyn nhw; a nhw – gyda CLILC, trydydd sector bywiog ac amrywiaeth o grwpiau arbenigol ac elusennau – sy'n ffurfio fy nghrŵp cynghori, Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol (HEG) a Fforwm y Dreftadaeth Adeiledig. Mae rhaglen waith yr HEG yn cynnwys eitem barhaol ar gydweithredu rhwng y cyrff cynrychioli mewn sioeau a digwyddiadau a rhannu negeseuon allweddol.

Er mwyn cyflawni rhai o brosiectau mawr y Strategaeth, byddwn yn cydweithio â nifer o sefydliadau ychwanegol. Er enghraifft, rydyn ni wedi datblygu partneriaeth strategol â Chyngor Celfyddydau Cymru a'r sector celfyddydau'n gyffredinol i hybu'r Fframwaith Treftadaeth a'r Celfyddydau; rydyn ni'n cydweithio â'r sector sgiliau adeiladu i gyflwyno rhaglen hyfforddi ar sgiliau adeiladu traddodiadol. Ac ar lefel fwy penodol, byddwn yn cydweithio â sefydliadau yn y sector ieuenctid a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i ddatblygu Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol i bobl ifanc; ac â Chyngor Gwynedd i ddatblygu eu cais nhw am Safle Treftadaeth Byd.

Bydd cydweithredu'n llwyddiannus yn sbarduno pobl i ofalu am yr amgylchedd hanesyddol, gan gymryd rhan mewn camau sy'n helpu eu cymuned ac yn meithrin sgiliau a hyder. Gall hyn arwain wedyn at ddatblygu cynaliadwy, gwell cyfleoedd bywyd a gwell agoriadau. Bydd cydweithredu'n llwyddiannus yn annog mwy o ymwelwyr i ddod i'n henebion ac yn hybu mwy o wario. Ar y lefel strategol, bydd hyn yn arwain at les economaidd a datblygu cynaliadwy.

**Goblygiadau Ariannol** Dim. Tynnir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 11**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar ddewisiadau i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros hyrwyddo safleoedd awdurdodau lleol i Cadw. (Tudalen 38).
**Ymateb: Gwrthod**

Mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu sut maen nhw'n gwario'u cyllidebau. Mae rhai awdurdodau'n buddsoddi llawer iawn mewn marchnata a hybu eu hadeiladau hanesyddol; dyw eraill ddim. Does gan Cadw mo'r gallu na'r adnoddau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros hybu holl safleoedd yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Hefyd, nid yr awdurdodau lleol yn unig sy'n "berchnogion" safleoedd. Mae rhai'n cael eu rheoli gan ymddiriedolaethau, neu'n perthyn i sefydliadau yn y trydydd sector, ac mae'r mwyafrif llethol o'r henebion cofrestredig a'r adeiladau rhestredig ar dir preifat neu'n gartrefi i bobl.

Wedi dweud hynny, mae 15 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru'n gymwys i gael cyllid Cydgyfeirio'r UE o dan y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth (HTP). Mae'r HTP yn brosiect £19m sy'n cael ei weinyddu gan Cadw i gynyddu gymaint â phosibl ar werth economaidd y dreftadaeth i Gymru. Drwy gyfrwng yr HTP, mae gwaith wedi'i wneud eisoes gyda nifer o awdurdodau lleol yn unswydd i ailwampio cyfleusterau i ymwelwyr ac i helpu ymwelwyr i wneud cysylltiadau wrth ddehongli mannau hanesyddol.

Mae Panel y Sector Twristiaeth wedi nodi Treftadaeth a Diwylliant Cymru fel cynnyrch allweddol mewn twristiaeth a fydd yn rhan bwysig o'r strategaeth dwristiaeth newydd ar gyfer 2013-2020. Gall asedau diwylliant a threftadaeth Cymru helpu i adrodd stori wybodus a difyr am Gymru sy'n ein gosod ni ar wahân i eraill. Rydyn ni'n dal i wella profiad ymwelwyr â'n holl atyniadau treftadaeth ac mae Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru'n cydweithio â Croeso Cymru i wireddu hyn.

Rwy'n gwybod bod yna argraff yn yr ymatebion i'r Ymchwiliad sy'n amau nad oes gan Cadw gylch gorchwyl ledled Cymru i hybu safleoedd hynafol a hanesyddol a henebion. Gellid dadlau bod hynny'n wir, a dylid nodi bod Cynllun Dehongli Cadw ar gyfer Cymru Gyfan i'w ddefnyddio ar draws y cyfan o amgylchedd hanesyddol Cymru, nid ar safleoedd Cadw yn unig; a'i fod yn dyst i'r modd yr ydyn ni'n ceisio sicrhau cysondeb a gwaith dehongli o safon drwyddi draw. Does dim diffyg uchelgais i hybu holl amgylchedd hanesyddol Cymru. Er hynny, yn yr amgylchiadau economaidd anodd sydd ohoni, mae'n

bwysig bod arian marchnata'n cael ei ddyrannu'n briodol. Gall ymddangos bod ein safleoedd mwyaf adnabyddus yn cael y rhan fwyaf o'r arian ar draul adeiladau mwy distadl, ond drwy ddefnyddio'r safleoedd eiconig hyn yn ganolfan yn ein cynlluniau dehongli, rydyn ni'n ceisio annog yr ymwelwyr i ymweld â safleoedd perthynol – ac nid safleoedd Cadw yn unig – sydd o bosibl yn llai adnabyddus ond sydd yn aml yr un mor bwysig.

Ymhellach, mae Cadw, drwy waith hwyluso Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, yn agor y drysau i gannoedd o safleoedd ac adeiladau hanesyddol ledled y wlad, sydd fel arfer naill ai ar gau i'r cyhoedd neu'n codi tâl mynediad. Ceir amryw o safleoedd ledled Cymru sy'n perthyn i'r awdurdodau lleol ac mae llawer ohonyn nhw'n cymryd rhan ym mhenwythnos Drysau Agored ym mis Medi bob blwyddyn.

**Goblygiadau Ariannol.** Does dim lle yn y gyllideb i ymdopi â phwysau ychwanegol arwyddocaol.

**Argymhelliad 12**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar bosibilrwydd sefydlu sefydliad treftadaeth genedlaethol ar sail aelodaeth, er mwyn hyrwyddo safleoedd hanesyddol. (Tudalen 38)

**Ymateb: Derbyn**

Ar lefel y sector, cafodd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol (HEG) ei ffurfio yn 2004 i gynghori Llywodraeth Cymru ar gamau er lles yr amgylchedd hanesyddol ac i'w hybu. Mae'r aelodau'n cynnwys adrannau eraill o'r Llywodraeth megis Croeso Cymru a CyMAL; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; cyrff sy'n cael eu noddi gan Lywodraeth Cymru megis Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, a chyrff fel Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae eraill yn cynnwys perchnogion asedau mawr cenedlaethol fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Glandŵr Cymru; Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a'r trydydd sector. Mae'r HEG yn cyfarfod bob chwarter ac mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys gofyniad bod rhaid hybu'r amgylchedd hanesyddol – sy'n eitem barhaol ar yr agenda. Nodau'r Grŵp yw hybu'r sector, ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithio er lles grwpiau ac amgueddfeydd lleol; caniatáu cyd-gymorth a chroes-hyrwyddo; a chynnig arweinyddiaeth ac eiriolaeth. Mewn sioeau a digwyddiadau cenedlaethol, mae aelodau'r HEG yn cydweithredu gymaint ag y gellir ar negeseuon ar y cyd ac o ran gosod stondinau yn agos i'w gilydd er mwyn pwysleisio presenoldeb sector yr amgylchedd hanesyddol.

Gan hynny, mae yna fecanweithiau eisoes i hybu safleoedd hanesyddol yng Nghymru. Er hynny, rwy'n derbyn argymhelliad y Pwyllgor ac rwy'n cytuno y gallai rhagor gael ei wneud i hybu'r amgylchedd hanesyddol. Rwy'n ddigon bodlon felly edrych ar bosibilrwydd cael corff i wneud hyn a byddaf yn gofyn i'm Grŵp Amgylchedd Hanesyddol adolygu'r opsiynau ynglŷn â sefydlu "cynghrair" treftadaeth sydd wedi'i seilio ar aelodaeth neu gorff tebyg. Bydd yna argymhellion yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

**Goblygiadau Ariannol** Dim. Tynnir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 13**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cadw yn rhoi blaenoriaeth i hygyrchedd i'w safleoedd a sicrhau bod ei ddull gweithredu yn gyson. (Tudalen 38)
**Ymateb: Derbyn**

Yn gyffredinol, chafodd safleoedd treftadaeth mo'u codi ar sail mynediad rhwydd, a chafodd cestyll yn benodol eu codi i atal pobl rhag dod i mewn. Gan hynny, mae yna enghreifftiau lle nad oes modd sicrhau bod pob rhan o safle o fewn cyrraedd yn ffisegol i bawb. Mae Cadw wrthi'n pennu manylion terfynol ei raglen o waith cadwraeth, diogelwch a mynediad ffisegol, ar sail archwiliad o'r amodau ym mhob un o'i 128 o safleoedd yn ystod 2012.

Bydd rhaglen fynediad Cadw yn cynnig gwelliannau i ymwelwyr sydd â nam ar y synhwyrau yn ogystal ag i ymwelwyr sy'n ei chael yn anodd symud o gwmpas, gan gyflwyno dolenni sain a phaneli dehongli drwy gyffwrdd yn ogystal â rampiau mynediad a mannau i eistedd a gorffwys. Bydd y Pwyllgor am nodi bod pobl sydd ag anableddau a'u gofalwyr yn cael dod i holl safleoedd Cadw yn rhad ac am ddim.

Gall darpar ymwelwyr â safleoedd treftadaeth brofi nifer o rwystrau sy'n eu hatal, nid lleiaf ymwybyddiaeth o'r safleoedd a'r hyn y maen nhw'n ei gynnig ac argraff y gallai safleoedd o'r fath fod yn gyfyngedig o ran eu hapêl neu eu perthnasedd. Mae Strategaeth yr Amgylchedd Hanesyddol a Chynllun Dehongli arloesol Treftadaeth Cymru Gyfan yn tanlinellu mor bwysig yw hi i Lywodraeth Cymru fod pobl yn ymweld â safleoedd treftadaeth i hamddena ac i ddysgu.

Drwy'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth, mae Cadw'n gwella mynediad y cyhoedd a'u dealltwriaeth a'u mwynhad a hynny drwy ddarparu cyfleusterau modern i ymwelwyr, gwaith dehongli cyfoes, defnyddio technolegau newydd, celf ac ail-greadau hanes byw. Mae'r gwaith dehongli newydd yn hoelio sylw'n bennaf ar ymweliadau a gweithgareddau i deuluoedd, gyda darpariaeth ychwanegol i bartïon o ysgolion a diddordebau arbennig. Ceir dros 80,000 o ymweliadau addysgol y flwyddyn â safleoedd Cadw a chafodd y Tîm Dysgu ei gynyddu o un i dri o swyddogion yn 2012. Does dim rhaid talu am weithgareddau addysgol.

Cydategir y gwaith hwn gan waith Archaeolegydd Cymunedol, sef swydd newydd sy'n ceisio defnyddio apêl archaeoleg a gwaith cloddio i ddenu cynulleidfaoedd newydd, gan gynnwys rhai nad ydyn nhw'n nodweddiadol o ran proffil ymwelwyr y briff ffrwd. Mae'r prosiectau diweddar yn cynnwys gweithio gyda charcharorion yng Ngharchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr a gwaith cloddio gydag Operation Nightingale, sef mudiad sy'n helpu i adsefydlu milwyr sy'n dychwelyd ar ôl ymladd drwy gyfrwng archaeoleg.

Bwriad rhaglen weithgareddau Cadw yw apelio at ymwelwyr ychwanegol a'u denu i'r safleoedd. Er bod llawer o'r digwyddiadau'n cael eu targedu ar ymweliadau twristiaeth, mae llawer o rai eraill yn canolbwyntio'n benodol ar gynulleidfa leol. Mae hyn yn cynnwys prosiect Crochan a Ffwrnais a ddaeth i benllanw yn 2012, ar ôl cynnwys mwy na 26,000 o bobl ifanc mewn gweithgareddau creadigol a pherfformiadau ar wyth o safleoedd ledled Cymru. Mae'r Fframwaith Treftadaeth a Chelfyddydau, a lansiwyd y llynedd, yn amlinellu'r ymagwedd at ddefnyddio'r celfyddydau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd, yn enwedig pobl ifanc.

**Goblygiadau Ariannol Goblygiadau Ariannol** Dim. Tynnir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 14**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar bosibilrwydd sefydlu corff ymbarél cynrychioladol, fel English Heritage, i gynrychioli sefydliadau anllywodraethol yn y trydydd sector a'r sector preifat. (Tudalen 58)
**Ymateb: <u>Derbyn</u>**

Mae Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru'n cynnwys ymrwymiad i gynnal dadansoddiad o strwythur, gwytnwch a chapasiti'r trydydd sector yng Nghymru. Mae'r Strategaeth yn dynodi bwriad i gomisiynu adolygiad o'r opsiynau ynglŷn â'r canlynol:

1) sefydlu Rhwydwaith Treftadaeth i Gymru wedi'i seilio ar aelodaeth i fod yn ganolbwynt ar gyfer cydlynu'r gweithredu ar draws y trydydd sector yng Nghymru. Sefydliad tebyg i'r Cynghrair Treftadaeth yn Lloegr yw un opsiwn ond mae yna fodelau eraill sy'n haeddu rhagor o ystyriaeth. Dylid nodi nad corff ymbarél yn yr ystyr hon mo English Heritage, ond Corff Cyhoeddus Anadrannol (sydd â swyddogaethau statudol) o dan nawdd yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon.

2) sefydlu Ymddiriedolaeth Treftadaeth i Gymru naill ai i gydlynu camau'r ymddiriedolaethau cadw adeiladau unigol neu gorff newydd i ysgwyddo perchnogaeth a rheolaeth adeiladau a gweithredu fel corff cynghori:

- Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud drwy arfarnu'r opsiynau a phenodir ymgynghorwyr cyn hir i fwrw ymlaen â hyn.

- Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn sicrhau ymagwedd gydlynol. Mae'r awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill eisoes yn cydweithio i gyflawni mentrau adfywio lleol sydd wedi'u seilio ar dreftadaeth.

**Goblygiadau Ariannol:** Does dim costau ychwanegol ynglŷn ag ystyried posibilrwydd sefydlu corff ymbarél cynrychioliadol gan y bydd unrhyw gostau

cwmpasu ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r rhaglenni presennol. Er hynny, bydd sefydlu a chynnal corff newydd yn gofyn am rai adnoddau nwydd a byddai angen ystyried ble byddai'r costau hynny'n syrthio, a sut caen nhw eu talu.

**John Griffiths**
**Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon**